WELSH
TRIATHLON
CYMRU




# FFRAMWAITH STRATEGOL GWEITHIOL

# EIN DIBEN

Datblygu cymuned triathlon sy'n gwella lles cenedlaethau heddiw ac yfory yng Nghymru.



# EIN PILERI CHWARAEON

## Llwyddiant

Datblygu pobl ragorol i gyflawni llwyddiant rhyngwladol.

1. Sicrhau bod cyfleoedd datblygu hygyrch a holistig yn cyrraedd pob cymuned er mwyn ymgysylltu'r genhedlaeth nesaf o driathletwyr.

2. Datblygu pobl sydd â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r safon uchaf ar draws y sefydliad.

3. Buddsoddi'n effeithiol a defnyddio penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni llwyddiant rhyngwladol hirdymor ar gyfer y sefydliad.

4. Hyrwyddo amgylcheddau perfformio sy'n galluogi ein pobl i gyrraedd eu llawn botensial.

## Cynhwysiant

Hwyluso portffolio llawn o ddigwyddiadau hwyl a chynhwysol.

1. Hwyluso ystod lawn o ddigwyddiadau diogel, cynhwysol ledled Cymru, gan ddarparu ar gyfer pawb o bob cenhedlaeth a gallu.

2. Cynnig cyfleoedd Grŵp Oedran sy'n gwella llwybrau a phroffil cystadlaethau i athletwyr a chlybiau domestig.

3. Arddangos Cymru a'r gamp drwy weithio gyda phartneriaid i ddenu digwyddiadau aml-gamp mawr.

4. Cynnig llwyfan i alluogi Paratriathlon cystadleuol i ffynnu.

## Cynaliadwyedd


Arwain cyfleoedd i dyfu cymuned triathlon gynaliadwy.

1. Darparu gweithgareddau a chyfathrebiadau diddorol sy'n gwella ein proffil ac yn cynyddu aelodaeth.

2. Cynyddu cyfranogiad drwy raglenni sy'n cael eu llywio gan fewnwelediad a thrwy ddatblygu pobl.

3. Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn ar draws y sefydliad i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

4. Creu cymunedau cydlynol drwy rwydwaith o glybiau aml-gamp a phartneriaethau cydweithredol.


Llwyddiant
Cynhwysiant
Cynaliadwyedd
Gweledigaeth



# EIN GWELEDIGAETH

Erbyn 2030, bydd gennym enw da a gydnabyddir yn eang am wella lles yng Nghymru drwy lywio cymuned chwaraeon lwyddiannus, gynhwysol a chynaliadwy.

# EIN PILERI LLYWODRAETHU

01

Cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol.

02

Moeseg a hygrededd wedi'u harddangos drwy ymddygiad ac arferion.

03

Cymuned gynhwysol, addysgedig sy'n cael ei chefnogi.

04

Penderfyniadau a chyfathrebiadau sy'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth.




PHOTOGRAPHY BY DELLY CARR

# EIN NODAU STRATEGOL

01

Hwyluso mynediad i weithgareddau triathlon cynhwysol o fewn 15 milltir i bob person yng Nghymru.

02

Ennill medalau yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2026 a 2030 i ysbrydoli'r wlad.

03

Hwyluso digwyddiad triathlon rhyngwladol blynyddol i annog cyfranogiad ledled Cymru.

04

Datblygu ffynonellau cyllido amrywiol o bedair ffrwd o leiaf er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

05

Gallu profi sut mae Triathlon Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau.

# EIN GWERTHOEDD

## Parch

Creu diwylliant o barch i bawb drwy chwarae teg a chynhwysiant.

## Uchelgais

Yn benderfynol i gyflawni llwyddiant drwy gofleidio newid ac anelu am ragoriaeth.

## Gwaith tîm

Creu amgylchedd cydweithredol, cadarnhaol i gyflawni nodau a dathlu llwyddiant.

## Hygrededd

Hyrwyddo amgylchedd o onestrwydd a moesau cadarn.

# TROSOLWG O'N STRATEGAETH

## Diben

Datblygu cymuned triathlon sy'n gwella lles cenedlaethau heddiw ac yfory yng Nghymru

## Gweledigaeth

Erbyn 2030, bydd gennym enw da a gydnabyddir yn eang am wella lles yng Nghymru drwy lywio cymuned chwaraeon lwyddiannus, gynhwysol a chynaliadwy

| Llwyddiant | Cynhwysiant | Cynaliadwyedd |
|---|---|---|
| Datblygu pobl ragorol i gyflawni llwyddiant rhyngwladol | Hwyluso portffolio llawn o ddigwyddiadau hwyl a chynhwysol | Arwain cyfleoedd i dyfu cymuned triathlon gynaliadwy |
| 1. Sicrhau bod cyfleoedd datblygu hygyrch a holistig yn cyrraedd pob cymuned er mwyn ymgysylltu'r genhedlaeth nesaf o driathletwyr. | 1. Hwyluso ystod lawn o ddigwyddiadau diogel, cynhwysol ledled Cymru, gan ddarparu ar gyfer pawb o bob cenhedlaeth a gallu. | 1. Darparu gweithgareddau a chyfathrebiadau diddorol sy'n gwella ein proffil ac yn cynyddu aelodaeth. |
| 2. Datblygu pobl sydd â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r safon uchaf ar draws y sefydliad. | 2. Cynnig cyfleoedd Grŵp Oedran sy'n gwella llwybrau a phroffil cystadlaethau i athletwyr a chlybiau domestig. | 2. Cynyddu cyfranogiad drwy raglenni sy'n cael eu llywio gan fewnwelediad a thrwy ddatblygu pobl. |
| 3. Buddsoddi'n effeithiol a defnyddio penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni llwyddiant rhyngwladol hirdymor ar gyfer y sefydliad. | 3. Arddangos Cymru a'r gamp drwy weithio gyda phartneriaid i ddenu digwyddiadau aml-gamp mawr. | 3. Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn ar draws y sefydliad i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. |
| 4. Hyrwyddo amgylcheddau perfformio sy'n galluogi ein pobl i gyrraedd eu llawn botensial. | 4. Cynnig llwyfan i alluogi Paratriathlon cystadleuol i ffynnu. | 4. Creu cymunedau cydlynol drwy rwydwaith o glybiau aml-gamp a phartneriaethau cydweithredol. |

# EIN DATGANIADAU LLYWODRAETHU



# CYNALIADWYEDD ARIANNOL

- Cyflawni portffolio incwm cytbwys i gynnal refeniw blynyddol sy'n fwy na'r cronfeydd wrth gefn fel y gallwn ailfuddsoddi i ddatblygu ein camp
- Lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid cyhoeddus i 40% tra'n denu cymaint o gyllid â phosibl i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015)
- Datblygu dull masnachol cadarn gan gynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o asedau a chreu partneriaethau proffidiol i gefnogi digwyddiadau, cit, cyfranogiad a rhaglenni perfformiad
- Datblygu llwyfan masnachu i gynyddu'r cynnig i aelodau a chynyddu refeniw
- Cadw aelodau a denu mwy ohonynt, gan sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi eu perthynas â Triathlon Cymru: targedu cyfradd gadw o 90% bob mis o blith oedolion a phlant, ynghyd â thwf blynyddol fel y nodwyd
- Sicrhau bod ein penderfyniadau strategol yn rheoli risg

# CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

- Arddangos a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o ddarparu gweithgareddau triathlon a chefnogi addysg ein partneriaid i gyflawni arferion cynaliadwy
- Archwilio cynnydd o ran lleihau defnydd o eitemau untro fel papur a phlastigau, a meincnodi yn erbyn arfer gorau
- Nodi, cefnogi a datblygu cynlluniau i leihau a gwrthbwyso allyriadau carbon gyda'r nod o ddod yn 'hinsawdd gadarnhaol' fel sefydliad erbyn 2030
- Edrych ar godi safonau i alluogi ymrwymiad i siartrau cenedlaethol a rhyngwladol i sicrhau cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwy
- Cefnogi mentrau lles economaidd a chymdeithasol o fewn partneriaethau

# MOESEG A HYGREDEDD WEDI’U HARDDANGOS DRWY YMDDYGIAD AC ARFERION

- Sicrhau bod fframweithiau i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn cael eu sefydlu a’u cyfathrebu
- 100% o glybiau yn gweithio tuag at Achrediad Insport DSW ac yn meddu ar fframwaith Diogelu a Risg
- Arddangos cynnydd parhaus yn erbyn amcanion lles athletwyr yn unol ag adroddiad y Farwnes Grey Thompson (2017) ar Ddyletswydd Gofal, gan adeiladu arno hefyd
- Cynnal Safon 2 Diogelu ac adeiladu ar ganlyniadau ar gyfer adolygiad panel blynyddol
- Cydweithredu â British Triathlon a’r Gwledydd Cartref i gadw pobl yn ddiogel yn ein camp
- Sicrhau bod rhaglen addysg athletwyr a gofalwyr wedi’i hintegreiddio o fewn y rhaglen perfformiad
- Cyflawni Safon Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Uwch Chwaraeon Cymru






# CYMUNED GYNHWYSOL, ADDYSGEDIG SY'N CAEL EI CHEFNOGI

- Darparu fframwaith lles staff a gwirfoddolwyr allweddol ac wythnos les flynyddol ym mis Chwefror

- Bydd gan bob gwirfoddolwr, gan gynnwys hyfforddwyr a swyddogion technegol, lwybr clir o gynnydd, gan sbarduno ymdeimlad o ddiben a hyder

- Creu fframwaith hyfforddi sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu ym mhob rhan o'r llwybr triathlon

- Darparu Strategaeth Wirfoddoli i wella cyfleoedd i ddatblygu a helpu i gynnal twf ar lawr gwlad ledled Cymru

- Sicrhau proses recriwtio staff gynhwysol, sydd â digon o adnoddau i fodloni anghenion strategol (12 aelod o staff llawn-amser erbyn 2030 a 3 hyfforddwr rhanbarthol rhan-amser)

- Sicrhau bod gan bob aelod o staff gynllun datblygu personol clir wedi'i alinio ag Adolygiad Datblygu Perfformiad (ADP) sy'n anelu at greu perthnasau cadarnhaol â'r sefydliad tra'n ychwanegu gwerth at lwybrau gyrfa parhaus

- Sicrhau bod ein Bwrdd Cyfarwyddwyr yn gweithredu ac yn cael ei werthuso yn unol â Fframwaith Egwyddorion Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Cymru

# PENDERFYNIADAU A CHYFATHREBIADAU SY'N CAEL EU LLYWIO GAN DDEALLTWRIAETH

- Casglu, monitro ac adolygu data a thystiolaeth i'n helpu i ddeall sut a pham rydym yn gwneud gwahaniaeth a sicrhau bod dysgu a gwelliant yn cael eu hymgorffori i'r dyfodol
- Monitro data iechyd economaidd-gymdeithasol, demograffig ac sy'n cael ei hunan-adrodd i fesur effaith ar les
- Drwy'r arolwg staff a gwerthusiad y Bwrdd, monitro effeithiolrwydd ein cyfathrebiadau mewnol (Bwrdd a Staff) i sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau
- Datblygu strategaeth rhanddeiliaid sy'n cefnogi cydweithrediad a rhannu dysgu, ac sy'n cynnwys ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli ein haelodau ac yn cyrraedd cynulleidfa gynhwysol, gan ddefnyddio data ac arolygon i gynnig dealltwriaeth a dysg
- Defnyddio atebion TG a gwefan deniadol sy'n gwella taith ar-lein y cyfranogwyr





# CYSYLLTWCH Â NI

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r FFRAMWAITH STRATEGOL, neu os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â


## Beverley Lewis
## Prif Swyddog Gweithredol /Chief Executive Officer

beverleylewis@welshtriathlon.org
+44 (0) 300 300 3128
+44 (0) 7824 145 085


WELSH TRIATHLON CYMRU